CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 19 IONAWR 2016

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
B Owen, W R Owen, I C Thomas, W T Owen, H W Roberts,
A W Bohana,M Thomas, G Thomas, A Hopcyn,E Lovgreen, E Hughes,
T Thomas, K Williams, C Williams, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng G Thomas (p)

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Gweithdy Mwy na Geiriau
Cyfarfod am toriadau S4C

3. **Datgan Buddiant Personol**

W R Owen – cynllunio a Her Gwynedd
E Lovgreen – Her Gwynedd (canolfan dwristiaeth)
I C Thomas – Her Gwynedd
W T Owen – Cynllunio
G Thomas (c) – Her Gwynedd

Cyrhaeddodd y Cynghorydd A Hopcyn am 6.02

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 5 Ionawr 2016
ii. Is Bwyllgor Adloniant 19 Ionawr 2016

Noson Nadoligaidd – hynod ddiolchgar i bobl Caernarfon am gefnogi mor frwd er gwaethaf y tywydd . Noson llwyddiannus iawn a roi ethyrgl yn papur i nodi ein Diolch i bawb
Dydd Gŵyl Dewi – parhau a trefniadau orymdaith (angen gwirfoddolwyr). Ceisio amseru o amgylch amser cinio ysgolion er mwyn anelu bod ar y maes erbyn 1 i gael manteisio ar amser cinio cyhoedd er mwyn cael cynulleidfa. Clerc i holi'r ysgolion pa fath o weithgareddau o flaen llaw eleni (i e prosiect celf)

Gofyn i'r ysgolion baratoi eitem ar gyfer y maes ac efallai careoci Cymraeg neu fiwsig Cymraeg yn cael eu chwarae o Siop Na Nog. Prynnu fflagiau llaw eto

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir ar ôl nodi bod Cyng B Owen a Cyng W T Owen allan ar gyfer eitem 15
ii. Derbyn fel rhai cywir a symud ymlaen ar trefniadau

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C15/1381/14/LL **Cytuno**
Gwaith amnewid antena's presennol a datblygiad atodol

Coed Helen Folly, Summer Hill, Caernarfon

2. C15/1376/14/CR **Cytuno**
Gwaith amnewid antena's presennol a datblygiad atodol

Coed Helen Folly, Summer Hill, Caernarfon

3. C16.0001/14/LL **Cytuno**
Estyniad un-llawr yn y cefn ynghyd ac estyniad un-llawr yn y blaen gyda balconi ar y to

4 Marine Terrace, Waterloo Port, Caernarfon

****

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn au talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Lythyr o ddiolch gan Plas Maesincla
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10.E-bost gan Lauren Sourtbutts

Pâr: Llun 'The Investiture of the Prince of Wales gan Christopher Williams
Penderfynwyd
Caniatáu gyda'r amodau arferol

11.Glanhau yr Institiwt

Cyfathrebu rhwng y Clerc a Cyfreithwyr y Cyngor
Penderfynwyd
i. Maer a cadeirydd y pwyllgor personél i baratoi y ddogfen tendr gyda'r clerc ac yna ei hybsysebu yn y wasg
ii. Cymeryd y camau priodol i ddod ar cytundeb presennol i ben
(cyrhaeddodd Cyng W T Owen am 6.20)

12.**Her Gwynedd**

Pecyn perthnasol yn amgaeedig
Eglurodd y clerc y byddai yn amhosib gwneud unrhyw benderfyniad , dim ond penderfynu os dylid cadw penawdau i mewn ai beidio am drafodaethau pellach

Penderfynwyd

Parcio – peidio dilyn i fynny gan bod nodyn Cyngor Gwynedd yn berffaith clir
Glanhau Strydoedd – cadw i mewn nes gweld penderfyniad CG
Toiledau cyhoeddus – parhau trafodaethau efo Antur Waunfawr
Biniau Halen a Baw ci – clerc i baratoi cost comparison sheet i'r Cyngor Tref neu Cyngor Gwynedd rhedeg y gwasanaeth
Canolfan Twristiaeth – Parhau trafodaethau efo Antur waunfawr
Pont Aber – cadw i mewn nes gweld penderfyniad CG
Gorfodaeth Stryd – peidio dilyn ar hyn o bryd
Arwyddion Stryd – peidio dilyn ar hyn o bryd
Parcio Preswyl – angen mwy o drafodaethau – clerc i siarad a swyddogion
Blodau a Gwair – cadw mewn
Parciau – peidio di ystyru ar hyn o bryd a cael at wraidd y ddeddf "Morfa Seiont Act 1882"

12.Cwestiynnau

Dim

Gorffenodd y cyfarfod am 7.05

Arwyddwyd …… Dyddiad ……..